

Cyngor Caerdydd – Etholiadau Llywodraeth Leol Gwybodaeth Ddefnyddiol a Dyddiadau Allweddol



Dydd Iau 5 Mai 2022

Briffiad Ymgeiswyr ac Asiantau

Fe'ch gwahoddir i Sesiwn Frifio Ymgeiswyr ac Asiantau ar **Ddydd Iau 10 Mawrth 2022 am 5pm** neu **Ddydd Mawrth 15 Mawrth 2022 am 2pm** drwy Microsoft Teams. Cysylltwch ag etholiadau@caerdydd.gov.uk i gael dolen i ymuno â'r sesiwn. Bydd y papur brifio yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ac asiantau gael gwybod am rai newidiadau allweddol, gan gynnwys newidiadau pwysig i'r papurau enwebu a'r broses.

Enwebiadau

Sicrhewch eich bod yn llenwi ac yn cyflwyno'r ffurflen enwebu gywir gan fod newidiadau sylweddol ar gyfer etholiad Mai 2022. Mae'r rhain yn cynnwys –

1. **Cyflwyno papurau enwebu yn electronig** – Gellir cyflwyno enwebiadau trwy e-bost i etholiadau@caerdydd.gov.uk
2. **Dim tanysgrifwyr** – Mae'r gofyniad am danysgrifwyr wedi'i ddileu a bydd ymgeiswyr yn gallu enwebu eu hunain (mae angen tyst o hyd)
3. **Ffurflen Cyfeiriad Cartref** – Rhaid i ymgeiswyr llenwi Ffurflen Cyfeiriad Cartref sy'n nodi a ydynt yn dymuno i'w cartref beidio â'i gyhoeddi (caiff y brif ardal ei hargraffu ar y papur pleidleisio a'r Datganiad o Bersonau a Enwebwyd)
4. **Datganiad o Aelodaeth y Pleidiau** – Rhaid i ymgeiswyr restru enw neu enwau cofrestredig pob plaid wleidyddol y maent wedi bod yn aelod ohoni yn y 12 mis blaenorol (cyhoeddir y manylion ar y Datganiad o Bersonau a Enwebwyd)
5. **Disgrifiadau** – Os nad yw'r disgrifiad o'r blaid wleidyddol yn cynnwys Cymru, Cymreig, Wales neu Welsh, gall yr ymgeisydd ychwanegu hyn at y disgrifiad.

Newidiadau allweddol eraill

1. **Newid etholfraint** – Mae gan bobl ifanc 16 ac 17 oed a gwladolion tramor cymwys hawl i bleidleisio yn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ar ddydd Iau 5 Mai 2022.
2. **Dirprwy argyfwng (Covid-19)** – Bydd yr opsiwn i wneud cais am ddirprwy argyfwng ar gyfer Covid-19 yn cael ei estyn ar gyfer yr etholiadau ar 5 Mai.
3. **Terfyn Gwariant** – Mae hwn bellach wedi'i gynyddu i £806 a 7c fesul etholwr
4. **Newidiadau i ffiniau**

Bydd y newidiadau'n gweld nifer yr aelodau etholedig yn y ddinas yn cynyddu o'r ffigur presennol o 75 i 79, tra bydd nifer y wardiau etholiadol yn gostwng o 29 i 28. Bydd ward bresennol Creigiau / Sain Ffagan yn cael ei chynnwys mewn ward newydd – Pentyrch a Sain Ffagan tra bydd ardal Draenen Pen-y-graig, a oedd gynt wedi'i chynnwys yn ward Llanisien, bellach yn dod yn rhan o ward newydd Llys-faen a Draenen Pen-y-graig.

Nifer	Enw	Disgrifiad	Nifer y Cynghorwyr	Newid neu Dim Newid
1	Adamsdown	Cymuned Adamsdown	2	Dim newid
2	Butetown	Cymuned Butetown	3	Newid - cynnydd yn nifer y Cynghorwyr o 1 i 3
3	Caerau	Cymuned Caerau	2	Dim newid
4	Treganna	Cymuned Treganna	3	Dim newid
5	Cathays	Cymunedau Cathays a Chastell	4	Dim newid

6	Cyncoed	Cymuned Cyncoed	3	Dim newid
7	Trelái	Cymuned Trelái	3	Dim newid
8	Y Tyllgoed	Cymuned y Tyllgoed	3	Dim newid
9	Gabalfa	Cymuned Gabalfa	2	Dim newid
10	Grangetown	Cymuned Grangetown	4	Newid - cynnydd yn nifer y Cyngorwyr o 3 i 4
11	Y Mynydd Bychan	Cymuned y Mynydd Bychan	3	Dim newid
12	Llys-faen a Draenen Pen-y-graig	Cymunedau Llys-faen a Draenen Pen-y-graig	3	Newid - cynnydd yn nifer y Cyngorwyr o 1 i 3 Newid - roedd Draenen Pen-y-graig wedi'i gynnwys gynt gyda Llanisien (<i>dosbarthau etholiadol KA, KC, KG a KK</i>)
13	Llandaf	Cymuned Llandaf	2	Dim newid
14	Ystum Taf	Cymuned Ystum Taf	2	Dim newid
15	Llanisien	Cymuned Llanisien	2	Newid - gostyngiad yn nifer y Cyngorwyr o 4 i 2 Newid - Symud Draenen Pen-y-graig i Llys-faen (<i>dosbarthau etholiadol KA, KC, KG a KK</i>)
16	Llanrhymini	Cymuned Llanrhymini	3	Dim newid
17	Pentwyn	Cymunedau Llanedern a Phentwyn	3	Newid - gostyngiad yn nifer y Cyngorwyr o 4 i 3
18	Pentyrch a Sain Ffagan	Cymunedau Pentyrch a Sain Ffagan	3	Newid - cynnydd yn nifer y Cyngorwyr o 1 i 3 Dilêwyd ward flaenorol Creigiau / Sain Ffagan gan ei chynnwys gyda Phentyrch a Sain Ffagan (<i>dosbarthau etholiadol 28A, 28C, 28D a 28F</i>)
19	Pen-y-lan	Cymuned Pen-y-lan	3	Dim newid
20	Plasnewydd	Cymuned y Rhath	4	Dim newid
21	Pontprennau/Pentref Llanelwng	Cymunedau Pontprennau a Phentref Llanelwng	2	Dim newid
22	Radur	Cymuned Radur a Phentre-poeth	2	Newid - cynnydd yn nifer y Cyngorwyr o 1 i 2
23	Rhiwbeina	Cymuned Rhiwbeina	3	Dim newid
24	Glan-yr-afon	Cymunedau Pontcanna a Glan-yr-Afon	3	Dim newid
25	Tredelerch	Cymuned Tredelerch	2	Dim newid
26	Sblot	Cymunedau Sblot a Thremorfa	3	Dim newid
27	Trowbridge	Cymuned Trowbridge	3	Dim newid
28	Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais	Cymunedau'r Eglwys Newydd a Thongwynlais	4	Dim newid
			79	

Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru

Sefydlwyd y Gronfa er mwyn ceisio dileu'r rhwystrau bydd pobl anabl yn wynebu wrth ymgeisio am swyddi etholedig, wrth ddarparu help ariannol gyda chostau addasiadau a chymorth rhesymol. Gweinyddir y Gronfa gan Anabledd Cymru gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido cynllun peilot er mwyn ariannu addasiadau a chymorth rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl yn etholiad Senedd Cymru 2021 ac etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

[Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru - Disability Wales](#)

Lleoliad pob Gorsaf Bleidleisio

Mae lleoliad gorsafoedd pleidleisio ar gyfer Etholaethau Caerdydd ar gael yn [Gorsafoedd pleidleisio a chardiau pleidleisio \(caerdydd.gov.uk\)](#).

Penodi Asiantau

Asiant	Dyddiad Cau ar gyfer Penodi (diwedd y dydd oni nodir yn wahanol)
Asiant agor y Bleidlais Bost	Cyn dechrau pob sesiwn
Asiant Pleidleisio	Dydd Mercher 27 Ebrill 2022
Asiant Cyfrif	Dydd Mercher 27 Ebrill 2022
Gwestai Ymgeisydd	Dydd Mercher 27 Ebrill 2022

Rhaid i'r penodiadau ddod i law erbyn y dyddiad cau a ddangosir uchod. Ni chaniateir i unrhyw un ymuno â'r digwyddiad priodol os nad ydym wedi cael gwybod erbyn y dyddiad cau priodol.

Asiantau Agor Pleidlais Bost

Gall pob **Ymgeisydd** benodi **2** asiant i fod yn bresennol. Llenwch y **Ffurflen Penodi Asiant Pleidleisiau Post** i benodi Asiantau Agor Pleidleisiau Post cyn dechrau pob sesiwn.

Asiantau Pleidleisio

Os ydych yn dymuno penodi Asiantau Pleidleisio, cwblhewch a **dychwelwch y Ffurflen Penodi Asiant Pleidleisio erbyn dydd Mercher 27 Ebrill 2022.**

Caniateir i asiantau pleidleisio fynychu gorsafodd pleidleisio yn ystod oriau'r bleidlais i nodi unrhyw afreoleidd-dra neu i helpu i atal dynwared rhywun. Ni ddylid drysu rhwng Asiantau Pleidleisio a "rhifwyr" nad oes ganddynt statws swyddogol yn yr orsaf bleidleisio. Gweler y dogfennau Canllawiau ar gyfer Rhifwyr a Rheolau ar gyfer Rhifwyr.

Asiantau Cyfrif

Gall pob **Ymgeisydd** benodi **5** asiant i'r Cyfrif. Llenwch y **Ffurflen Penodi Asiant Cyfrif** erbyn **Dydd Mercher 27 Ebrill 2022. Bydd hyn yn cael ei adolygu ar ddiwedd yr enwebiadau i ganfod a ellir cynyddu'r niferoedd, yn ogystal bydd cyfyngiadau a mesurau Covid-19 yn cael eu hasesu cyn cytuno ar nifer terfynol yr asiantau cyfrif.**

Gwestai Ymgeisydd

Gall pob Ymgeisydd benodi **1** Gwestai (a elwid gynt yn Briod/Partner) a fydd yn cael mynediad i'r Ganolfan Gyfrif. Llenwch y **Ffurflen Penodi Gwestai Cyfrif** erbyn **dydd Mercher 28 Ebrill 2021.**

Anfon cardiau pleidleisio

Bydd cardiau pleidleisio drwy'r post yn cael eu hanfon ddydd Gwener 18 Mawrth 2022 a bydd cardiau pleidleisio cyffredin yn cael eu cyflwyno rhwng dydd Gwener 18 Mawrth a dydd Sul 27 Mawrth 2022 i bob etholwr cymwys. Bydd rhediad atodol o gardiau pleidleisio yn cael ei anfon ar 21 Ebrill 2022.

Rhoi Pleidleisiau Post

Bydd Pleidleisiau Post yn cael eu dosbarthu ar ddydd Iau 14 Ebrill 2022 trwy bost dosbarth cyntaf. Dosberthir rhediad atodol o becynnau pleidleisio trwy'r post ar ddydd Gwener 22 Ebrill 2022.

Sylwer mai'r dyddiad cyntaf y gallwn ailgyhoeddi pleidleisiau post ar gyfer pecynnau pleidlais bost sydd wedi'u colli neu eu difetha yw dydd Iau 28 Ebrill 2022. Dim ond hyd at 5pm ar ddiwrnod y bleidlais y gall etholwyr ofyn am becyn pleidlais bost newydd.

Sesiynau Agor Pleidleisiau Post

Dyddiad	Amseriad	Lleoliad
Dydd Mercher 27 Ebrill 2022	9am-1pm a 1.30pm-5.30pm	Ystafelloedd Pwyllgor 1 a 2 Cyngor Dinas Caerdydd Neuadd y Sir Glanfa'r Iwerydd Caerdydd CF10 4UW
Dydd Iau 28 Ebrill 2022	9am-1pm a 1.30pm-5.30pm	
Dydd Gwener 29 Ebrill 2022	9am-1pm a 1.30pm-5.30pm	
Dydd Mawrth 3 Mai 2022	9am-1pm a 1.30pm-5.30pm	
Dydd Mercher 4 Mai 2022	9am-1pm a 1.30pm-5.30pm	
Dydd Iau 5 Mai 2022	9am-1pm a 1.30pm-5.30pm	
	8am - tan y diwedd	

Bydd pob sesiwn yn gorffen pan na fydd rhagor o bleidleisiau post i'w prosesu. Felly, gall yr amser gorffen amrywio o'r hyn a nodwyd.

Bydd newidiadau i amser dechrau sesiwn agor pleidleisiau post neu ychwanegu sesiwn agor newydd yn cael eu hysbysu i bob ymgeisydd o leiaf 24 awr cyn y newid.

Mynediad i Ddigwyddiad


Bydd asiantau, ymgeiswyr a gwesteion yn cael trwydded neu lythyr mynediad cyn y digwyddiad. Ar ôl cyrraedd y digwyddiad, rhaid iddynt wneud eu presenoldeb yn hysbys i'r swyddog â gofal priodol (goruchwyliwr sesiwn agor y bleidlais bost a'r ddesg Achredu yn y Cyfrif). Os rhoddir bathodyn neu gortyn gwddwg i fynychwr, rhaid ei wisgo bob amser a heb ei gyfnwid rhwng pobl. Gall methu â gwisgo bathodyn a ddarperir arwain at orfod gadael y digwyddiad. **Noder mai dim ond y bobl hynny sydd â thrwydded neu lythyr mynediad dilys a Phrawf Adnabod fydd yn cael mynediad i'r digwyddiad.**

Gwirio a Chyfrif

Bydd blychau pleidleisio yn cael eu derbyn yn Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3ND o 10pm Ddydd Iau 5 Mai 2022. Caiff blychau pleidleisio eu cadw mewn lleoliad diogel tan ddydd Gwener 6 Mai 2022.

Cynhelir y broses ddilysu a chyfrif yn Nhŷ Chwaraeon, Clos Parc Morgannwg, Caerdydd, CF11 8AW ddydd Gwener 6 Mai 2022. Bydd y broses ddilysu'n dechrau am 9am.

Map lleoliad y cyfrif:



PARCIO – Parciwch yn ardal gefnogwyr oddi cartref Stadiwm Dinas Caerdydd. Bydd staff digwyddiadau yn eich cyfeirio i le parcio.

Cyfrif rheolau'r lleoliad:

- Dim bwyd na diod
- Cadwch y cyfleuster mor lân a thaclus â phosibl
- Rhowch unrhyw sbwriel yn y biniau a ddarperir
- Dim ysmegu ger yr adeilad
- Dim ond yn ystod y slot amser a neilltuwyd y byddwch yn mynd i mewn i'r cyfleuster

Mynychwyr

Gall y bobl ganlynol fynd i'r Cyfrif:

- Yr Ymgeisydd, a'r
- Asiant Etholiadol, a
- Gwestai'r Ymgeisydd, a
- 5 Asiant Cyfrif

Thursday 5 May 2022 from 10pm
Receipt of ballot boxes

Friday 6 May 2022 from 9am
Verification of ballot papers

Counting of the votes

Declaration of Results

Gofyniad Cyfrinachedd

Rhaid i'r sawl sy'n mynd i unrhyw un o'r gweithrediadau ddarllen a chydymffurfio â'r gofynion cyfrinachedd yn Adran B.

Rhifwyr

Sicrhewch fod Rhifwyr yn darllen ac yn cydymffurfio â chanllawiau'r Rhifwyr a'r Rheolau i Rhifwyr yn Adran B. Bydd holl staff yr orsaf bleidleisio hefyd yn cael copi o'r canllawiau. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, ni chaniateir Rhifwyr yn yr orsaf bleidleisio a rhaid iddynt aros y tu allan a chadw at ofynion iechyd y cyhoedd.

Enw a Chyfeiriad y Cyhoeddwr a'r Argraffydd ar Gyhoeddiadau Etholiad

Cofiwch fod yn rhaid argraffu enw a chyfeiriad y cyhoeddwr a'r argraffydd ar ddeunydd etholiadol fel posteri neu ddogfennau eraill sy'n cael eu harddangos neu eu dosbarthu er mwyn hyrwyddo'r etholiadau.

Mae'n arfer anghyfreithlon peidio â gwneud hyn. Os bydd llys etholiadol yn canfod bod ymgeisydd llwyddiannus yn bersonol euog neu'n euog yn sgil ei asiantau, bydd ei ethol yn cael ei ddatgan yn annilyd.

Treuliau etholiad

Cyfeiriwch at y Terfyn Gwariant Ymgeiswyr am ddadansoddiad o'r terfynau gwariant ar gyfer pob ward.

Mae'r ffurflenni treuliau canlynol yn Adran C:

- Adroddiad ar wariant Ymgeisydd – Ymgyrch Fer
- Datganiad gan asiant etholiadol
- Datganiad gan ymgeisydd

Mae angen dychwelyd y ffurflenni canlynol i'r Gwasanaethau Etholiadol, Ystafell 263, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW erbyn dydd Iau 9 Mehefin 2022.

Manylion Cyswllt

Gwybodaeth swyddfa gyffredinol:

Gwasanaethau Etholiadol

Ystafell 263

Neuadd y Sir

Glanfa'r Iwerydd

Caerdydd

CF10 4UW

Ffôn – 029 20 872034

E-bost - gwasanaethauetholiadol@caerdydd.gov.uk

Rheolwr Cofrestru Etholiadol – Rebecca Light

Ffôn – 029 20 872032

E-bost – rebecca.light@caerdydd.gov.uk

Swyddog Canlyniadau – Paul Orders*

Dirprwy Swyddog Canlyniadau – Davina Fiore*

**Cysylltwch â Rebecca Light yn y lle cyntaf*

Comisiwn Etholiadol

Mae rhagor o ganllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau ar wefan y Comisiwn Etholiadol

[Etholiadau lleol yng Nghymru | Comisiwn Etholiadol](#)

Gwariant a rhoddion

Os oes gennych unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â gwariant, rhoddion neu daliadau etholiad, cysylltwch â swyddfa'r Comisiwn Etholiadol yn uniongyrchol ar 0333 103 1929 neu e-bostiwch

infowales@electoralcommission.org.uk

Etholiadau yn ystod Covid-19

Bydd canllawiau iechyd y cyhoedd ar yr adeg berthnasol yn cael eu hystyried ar gyfer yr etholiad ddydd Iau 5 Mai 2022.

Gallai mesurau gynnwys:

Enwebiadau:

- Gwiriadau anffurfiol trwy e-bost
- Angen trefnu apwyntiadau i gyflwyno papurau enwebu
- Wrth ddod i Neuadd y Sir i gyflwyno enwebiad, rhaid i'r ymwelydd:
 - Ddod ar ei ben/ei phen ei hun
 - Gwisgwch orchudd wyneb
 - Defnyddio diheintydd dwylo wrth gyrraedd a gadael Neuadd y Sir
 - Cydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol
- Cwblhau gwybodaeth Tracio ac Olrhain

Sesiynau Agor Pleidleisiau Post:

- Cyfyngiad ar nifer yr asiantau pleidlais bost sy'n bresennol ar unrhyw un adeg
- Wrth ddod i Neuadd y Sir, rhaid i'r ymwelydd:
 - Gwisgwch orchudd wyneb
 - Defnyddio diheintydd dwylo wrth gyrraedd a gadael Neuadd y Sir
 - Cydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol
- Cwblhau gwybodaeth Tracio ac Olrhain

Diwrnod Pleidleisio

- Cyfyngiad ar nifer yr asiantau pleidlais bost sy'n bresennol ar unrhyw un adeg
- Pan fydd yn yr orsaf bleidleisio, rhaid i'r asiant pleidleisio:
 - Gwisgwch orchudd wyneb
 - Defnyddio diheintydd dwylo wrth gyrraedd a gadael
 - Dilyn y systemau unffordd sydd ar waith
 - Cydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol
- Ni chaiff rhifwyr fynediad i adeilad yr orsaf bleidleisio a rhaid iddynt aros y tu allan a dilyn canllawiau iechyd y cyhoedd

Dilysu a Chyfrif

- Cyfyngiad ar nifer yr asiantau cyfrif a gwesteion sy'n bresennol
- Pan fydd asiantau a gwesteion yn y lleoliad gwirio a chyfrif, rhaid iddynt:
 - Gwisgwch orchudd wyneb
 - Defnyddio diheintydd dwylo wrth gyrraedd a gadael
 - Dilyn y systemau unffordd sydd ar waith
 - Cydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol
- Cofrestru wrth gyrraedd a gadael yr adeilad (bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwybodaeth Tracio ac Olrhain)